# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

**RHAN 9**

TERFYNU ETC. CONTRACTAU MEDDIANNAETH

**PENNOD 5**

TERFYNU CONTRACTAU SAFONOL CYFNODOL

VALID FROM 01/12/2022

*Terfynu gan ddeiliad contract: hysbysiad deiliad contract*

## 168 Hysbysiad deiliad contract

(1) Caiff deiliad y contract o dan gontract safonol cyfnodol derfynu'r contract drwy roi hysbysiad i'r landlord y bydd yn ildio meddiant o'r annedd ar ddyddiad a bennir yn yr hysbysiad.

(2) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract safonol cyfnodol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 168 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

## 169 Y cyfnod hysbysu byrraf a ganiateir

(1) Ni chaiff y dyddiad a bennir mewn hysbysiad o dan adran 168 fod yn llai na phedair wythnos ar ôl y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad i'r landlord.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 05/08/2016. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Croes Bennawd: Terfynu gan ddeiliad contract: hysbysiad deiliad contract yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 19 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(2) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract safonol cyfnodol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 169 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

### 170 Adennill meddiant

(1) Os yw deiliad y contract yn methu ag ildio meddiant o'r annedd ar y dyddiad a bennir mewn hysbysiad o dan adran 168, caiff y landlord wneud hawliad meddiant ar y sail honno.

(2) Mae adran 215 yn darparu bod yn rhaid i'r llys, os yw'n fodlon bod y sail wedi ei phrofi, wneud gorchymyn adennill meddiant o'r annedd (yn ddarostyngedig i unrhyw amddiffyniad sydd ar gael ar sail hawliau Confensiwn deiliad y contract).

(3) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract safonol cyfnodol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 170 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

### 171 Cyfyngiadau ar adran 170

(1) Cyn gwneud hawliad meddiant ar y sail yn adran 170 rhaid i'r landlord roi hysbysiad adennill meddiant i ddeiliad y contract sy'n pennu'r sail honno.

(2) Caiff y landlord wneud yr hawliad meddiant ar neu ar ôl y diwrnod y mae'r landlord yn rhoi'r hysbysiad adennill meddiant i ddeiliad y contract.

(3) Ond ni chaiff y landlord wneud yr hawliad meddiant ar ôl diwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau â'r diwrnod hwnnw.

(4) Ni chaiff y landlord roi hysbysiad adennill meddiant sy'n pennu'r sail yn adran 170 i ddeiliad y contract ar ôl diwedd y cyfnod o ddau fis sy'n dechrau â'r dyddiad a bennir yn yr hysbysiad o dan adran 168 fel y dyddiad y byddai deiliad y contract yn ildio meddiant o'r annedd.

(5) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract safonol cyfnodol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** A. 171 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 05/08/2016. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Croes Bennawd: Terfynu gan ddeiliad contract: hysbysiad deiliad contract yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 19 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

## 172 Terfynu contract yn dilyn hysbysiad deiliad y contract

(1) Os yw deiliad y contract yn ildio meddiant o'r annedd ar y dyddiad a bennir mewn hysbysiad o dan adran 168, neu cyn hynny, daw'r contract i ben ar y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad.

(2) Os yw deiliad y contract yn ildio meddiant o'r annedd ar ôl y dyddiad hwnnw ond mewn cysylltiad â'r hysbysiad, daw'r contract i ben—

(a) ar y diwrnod y mae deiliad y contract yn ildio meddiant o'r annedd, neu

(b) os gwneir gorchymyn adennill meddiant, ar y diwrnod a bennir yn unol ag adran 206.

(3) Mae'r hysbysiad yn peidio â chael effaith os, cyn i'r contract ddod i ben—

(a) yw deiliad y contract yn tynnu'r hysbysiad yn ôl drwy roi hysbysiad pellach i'r landlord, a

(b) nad yw'r landlord yn gwrthwynebu mewn ysgrifen i'r tynnu'n ôl cyn diwedd cyfnod rhesymol.

(4) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract safonol cyfnodol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** A. 172 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 05/08/2016. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Croes Bennawd: Terfynu gan ddeiliad contract: hysbysiad deiliad contract yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 19 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.